13EG O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol




## Wythnos yma

### Ymwelwyr pwysig iawn!

Cawsom wledd yn yr ysgol ddoe wrth i ymwelwyr pwysig iawn ddod i Ysgol Treganna. Trawsnewidiwyd yr iard i fod yn fuarth fferm ac roedd tractor, buwch, llo bach a defaid ar iard yr ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd yn gweld y fuwch yn cael ei godro ac yn cael cyfle i eistedd yn y tractor. Yn ystod y diwrnod, trefnwyd nifer o weithdai er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd ffermio ac o ble ddaw ein bwyd.Diolch yn fawr i NFU Cymru am gynnal diwrnod llawn o weithgareddau yn yr ysgol a diolch i "Newyddion Ni" am ddod i ffilmio'r digwyddiad.Diolch i'r staff hefyd wnaeth drefnu'r profiadau gwych yma i'n disgyblion.

### Cyngerdd Dathlu Doniau

Nos Iau, y 19eg o Fehefin am 6.30yp bydd cyngerdd Dathlu Doniau yn neuadd yr ysgol.Bydd y gyngerdd yn gyfle i ni ddathlu llwyddiant ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Yn y gyngerdd bydd y ddawns amlgyfrwng, y Gân Actol, y parti Cerdd Dant, yr ensemble lleisiol, parti Dawnsio Gwerin bl 3 a 4 a pharti deulais blwyddyn 6 yn perfformio. Yn ogystal, bydd Heti, Caio, Nel a Teifi a Morus yn perfformio. Bydd hefyd cyfle i glywed blwyddyn 2 yn perfformio'r caneuon bydd y criw yn canu yn Nhafwyl. Mae'r tocynnau, £3 yr un, ar werth ar Parent Pay.

### Tafwyl

Dydd Sul, y 15fed o Fehefin bydd blwyddyn 2 yn perfformio yn Nhafwyl am 3.15 yp. Cofiwch ddod draw i gefnogi a diolch i'r staff sydd wedi bod wrthi yn paratoi'r plant ar gyfer y perfformiad.

## Calendr

**Tafwyl 14/6/25 a 15/6/25**

**Cyngerdd Dathlu Doniau 19/6/25**




## Ymunwch â ni yn Ffair Haf Ysgol Treganna!

Ry'n ni'n edrych ymlaen at brynhawn llawn hwyl gyda gemau i'w chwarae, amrywiaeth o stondinau, raffl llawn gwobrau – a digonedd o hwyl haf.

### Ein Raffl Fawr

O anturiaethau teuluol a thalebau bwytai, i nwyddau lleol a phecynnau rhodd - mae rhywbeth i bawb. Byddwn hyd yn oed yn arwerthu crys arbennig Merched UEFA. A'r peth gorau? Mae pob tocyn a werthir yn helpu i gefnogi'r gymuned anhygoel sydd gyda ni yn Ysgol Treganna. Peidiwch ag anghofio cael eich tocynnau ar y 27ain - a chroeswch eich bysedd!


### Ydych chi'n Mwynhau Pobi?

Ry'n ni'n chwilio am gacennau melys neu sawrus i'w gwerthu yn ystod ffair yr ysgol. Bydd pob darn o gacen yn helpu i gefnogi'r ysgol!
Nodwch: rhaid i bob cacen fod heb gnau a chyda label clir o'r cynhwysion.
Os hoffech gyfrannu, anfonwch e-bost at **ffrindiautreganna@gmail.com,** a dewch â'ch cacennau i dderbynfa'r ysgol erbyn **bore'r** ffair. Diolch am eich cefnogaeth!

### Pwyllgor CRhA Newydd - Medi 2025

Byddwn yn cyflwyno ein pwyllgor CRhA newydd yn y ffair - dewch i ddweud helo! Byddem wrth ein bodd yn clywed eich syniadau a'ch adborth wrth i ni gynllunio ar gyfer blwyddyn gyffrous.

**Unrhyw gwestiynau?** Rhowch wybod i ni - edrychwn ymlaen at weld chi yno.
Dilynwch ni ar Instagram **ffrindiau_ysgol_treganna**



**Cwis Llyfrau**

Dymuniadau gorau i dîm blwyddyn 6 fydd yn cynrychioli Caerdydd yn rownd genedlaethol y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth. Bydd y disgyblion yn teithio i Aberystwyth ddydd Mercher ac yn ateb cwestiynau ac yn trafod llyfr penodol. Mae'r disgyblion hefyd wedi gorfod paratoi hysbyseb llyfr ar gyfer y gystadleuaeth. Pob lwc i Tom, Guto, Leusa, Elin a Nel – rydym yn falch iawn o bob un ohonoch! Diolch i Mr Evans am eu paratoi ar gyfer y gystadleuaeth.

**Ffair Swyddi blwyddyn 6**

Mae blwyddyn 6 wedi trefnu Ffair Swyddi ar yr 28ain o Fehefin yn Ysgol Treganna. Bwriad y ffair yw ysbrydoli'r disgyblion a chodi eu hymwybyddiaeth o'r gwahanol swyddi/ busnesau sydd ar gael. Os allwch chi fel rhieni i gyfrannu i'r Ffair yma wrth sôn am eich swydd/ eich busnes/ eich cwmni, byddem yn ddiolchgar iawn! Cysylltwch gyda'r dderbynfa os allwch ein cynorthwyo.

## Pride

Fel ysgol, byddwn yn gorymdeithio eto eleni yng ngorymdaith "Pride" ar ddydd Sadwrn, yr 21ain o Fehefin.Gofynnwn i bawb gwrdd ar Stryd Westgate rhwng 10yb a 10.30yb, o flaen balwnau "Pride". Gofynnwyd i ni sicrhau bod pawb yn eu lle erbyn 10.30yb fan bellaf.Edrychwn ymlaen at orymdeithio gyda'n gilydd.

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Pryd mae dy ben-blwydd di?

Mae fy mhen -blwydd yn…

**Her**

Fe fyddai'n dathlu fy mhen-blwydd…

**Testun trafod yr wythnos**

Pwy sydd wedi bod yn garedig gyda chi heddiw?

**Cân yr wythnos**

Fleur de Lys - Fi

**Idiom yr wythnos**

Siarad fel melin bupur